



SWYDD VACANCY

Teitl y Swydd:	Diffoddwr Tân Gwledig ar y System Ddyletswydd Amser Cyflawn (WDS)
Oriau:	42 awr yr wythnos ar gyfartaledd Y patrwm gwaith arferol fydd 6am-6pm, 4 diwrnod gwaith, 4 diwrnod i ffwrdd
Math o gytundeb:	Mae cyfleoedd ar gael yn barhaol, dros dro ac fel secondiad
Lleoliad:	Bydd angen i chi allu gweithio o unrhyw orsaf dân yng Ngogledd Cymru. Byddwch yn cael 'gorsaf gartref' ac yn cael cludiant i deithio i'r, ac o'r, orsaf honno o fewn eich oriau gwaith
Cyflog:	£30,533 y flwyddyn

Darparu gofal gweithredol hyblyg mewn amryw o orsafoedd tân gwledig ledled Gogledd Cymru er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun argaeledd.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r swydd yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Bod wedi'ch cyflogi ar hyn o bryd fel Diffoddwr Tân gan Wasanaeth Tân ac Achub Awdurdodau Lleol
 - Bod wedi cwblhau, neu ar fin cwblhau, y broses datblygiad i gymhwysedd yn swydd Diffoddwr Tân fel rhan o'r broses ddethol
 - Ymwybyddiaeth o weithgareddau a swyddogaethau craidd gwasanaeth tân ac achub yn genedlaethol ac yn lleol
 - Trwydded yrru lawn a chyfredol
 - Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ag amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd
 - Gallu deall, cofio, defnyddio ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus, diogel a systematig
 - Sgiliau TG canolradd a phrofiad o ddefnyddio pecynnau Microsoft
 - Gallu meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda phobl ar bob lefel
 - Gallu blaenoriaethu gwaith ac ateb terfynau amser, ac ymateb yn gadarnhaol dan bwysau
 - Gallu gweithio'n hyblyg o fewn yr amodau gwasanaeth, pan fo angen
 - Deall a pharchu gwahaniaethau ymysg pobl, ac ymrwymiad i ddefnyddio dull teg o ymdrin â phobl eraill
 - Ymrwymiad a gallu i ddatblygu eich hun a phobl eraill
 - Gallu cadw agwedd hyderus a chadarn mewn sefyllfaoedd sy'n hynod heriol
 - Agored i newid, ac awydd i geisio cefnogi newid
 - Dull rhagweithiol a brwdfrydig, gan weithio heb oruchwyliaeth ar adegau
 - Gallu cael canlyniadau boddhaol mewn Gwiriad DBS Sylfaenol
 - Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar Lefel 2, neu ymrwymiad i gyrraedd y lefel hon o fewn y cyfnod prawf (rhoddir pob cefnogaeth a hyfforddiant, fel y bo'n briodol)
- Ystyr Cymraeg ar lefel 2 yw: Deall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion. Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 21ain Chwefror 2019

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi

